# *Cyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth Natur Leol Ceredigion*
# *Ceredigion Local Nature Partnership Steering Group Meeting*

## *Cofnodion*

| | |
|---|---|
| ***Dyddiad:*** | 25/04/25 |
| ***Lleoliad:*** | Llanina Arms, Llannarth – Timau Hybrid |

***Presennol***

| | | |
|---|---|---|
| Alison Heal | AH | Uwch Ecolegydd Cyngor Sir Ceredigion |
| Al Prichard (ar-lein) | AP | Tir Coed |
| Ann Owen | AO | Partneriaeth Bwyd Ceredigion |
| Bob Jacques | BJ | Pencoed Top |
| Chris Harris | CHa | Cynorthwyydd Bioamrywiaeth, Partneriaeth Natur Ceredigion |
| Claire Hannington | CHn | Llannerch Aeron, Ymddiriedolaeth Genedlaeth |
| Cyng Eryl Evans<br>*Cadeirydd y Cyfarfod* | EE | Pencampwr Bioamrywiaeth |
| Cyng Keith Henson | KH | Galluogydd Tai Gwledig |
| Dafydd Lloyd | DL | Swyddog Cyswllt Coedwig Genedlaethol, CNC |
| Daniel Williams | DW | Dŵr Cymru |
| David Anning (ar-lein) | DA | RSPB |
| Elizabeth Riches | ER | Yr Ardd a Fferm Pen-y-banc |
| Evelyn Hollingdale | EH | Ceidwad Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Ieir Bach yr Haf a Clychlys |
| Fiona Moran<br>*Is-gadeirydd* | FM | Cynorthwyydd Bioamrywiaeth, Partneriaeth Natur Ceredigion |

| | | |
|---|---|---|
| Gillian Clark<br>*Hwylusydd* | GC | Swyddog Cefnogi Gwasanaethau CSC Partneriaeth Natur Leol Ceredigion |
| Jake Rayson<br>*Cofnodwr* | JR | Cynorthwyydd Bioamrywiaeth, Partneriaeth Natur Ceredigion |
| Joe Wilkins | JW | BDW Consultancy Ltd ac UK Youth for Nature |
| Molly Gilbert | MG | Bridiwr ceffylau, Llannarth |
| Paul Taylor | PT | Cofnodwr y Sir, Cadwraeth Ieir Bach yr Haf |
| Rachel Auckland | RA | Cydlynydd, Partneriaeth Natur Ceredigion |
| Sean McHugh (ar-lein) | SMH | CGGC |
| Sian Jones | SJ | Cyfieithydd |
| Tim Strang (ar -lein) | TS | Ffermwr, Bwlch-llan |
| Yusef Samari | YS | Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru |

| | |
|---|---|
| 1 | Croeso gan **KH i EE** sy'n cymryd y Portffolio Bioamrywiaeth dros CSC a chadeirydd PNL. |

| | |
|---|---|
| 2 | **Cyflwyniadau gan y rhai oedd yn bresennol** |

| 3 | **Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol** |
|---|---|
| | 11 Gorffennaf 25 - Aberystwyth<br>18 Hydref 25 – I'w gadarnhau<br>16 Ionawr 26 – Ar-lein |

| 4 | **WYTHNOS NATUR CYMRU** | |
|---|---|---|
| 4.1<br><br><br>4.2<br><br>4.3 | **RA** – Mae am inni gael presenoldeb cryfach yn ystod yr wythnos hon (5 – 13 Gorffennaf). Mae tîm cryfach yn golygu mwy o gefnogaeth ac mae hi am wybod a oes gan unrhyw ddigwyddiadau/syniadau i'w rhannu yn biodiversity@ceredigion.gov.uk<br>**SMH** – Mae am i bobl gysylltu fel y gall PNL Cymru eu hyrwyddo nhw/eu digwyddiadau ar y cyfryngau cymdeithasol.<br>**JW** –Mae digwyddiad wedi ei drefnu ar Lwyfan y Band (dydd Sadwrn 5 Gorffennaf) yn Aberystwyth ac mae wedi bod yn gweithio gydag **FM** a **GC** ar hyn. Mae hefyd yn rhan o ddigwyddiad lansio llyfrau yn The Bookshop by the Sea, ddydd Gwener 11 Gorffennaf 6pm. | |
| **Gweithredu** | | |

| 5 | **Diweddariadau Aelodau a Thrafodaeth** |
|---|---|
| 5.1 | **DW** – Mae caniatâd cynllunio nawr ar gyfer gwaith trin dŵr Aberteifi gan obeithio ei orffen erbyn 2027.<br>Mae cynllun tynnu ffosffadau yng ngwaith trin dŵr Llanbedr Pont Steffan nawr wedi dechrau. Mae mapio gorlifo dŵr stormydd ar gael yn fyw nawr ar-lein i'r holl safleoedd, 2,300 i gyd. |
| 5.2 | **JW** – Mae newydd ddechrau contract llawrydd gyda BDW. Yn gweithio tuag at nodi bylchau a phroblemau rhwng yr adran gynllunio yng Ngheredigion a'r gymuned ddatblygu i weld sut y gallant symud ymlaen gyda'i gilydd yn hytrach na gweld ei gilydd fel gwrthwynebwyr.<br>Mae UK Youth for Nature newydd lansio eu hymgyrch yng Nghymru ar gyfer dŵr croyw, gan edrych ar lygredd amaethyddol o safbwynt ymwneud yn well â ffermwyr ar lefel polisi ac ymgyrchu ar bethau tebyg i Lywodraeth Cymru. |
| 5.3 | **CH** – Yng Nghoed y Bont maent yn ail-wneud y datganiad rheolaeth. Maent wedi cael £2000 o arian Greening Funding gan Fargo ar gyfer pecynnau cymorth cyntaf, offer a blychau adar. Mae ganddynt ddiwrnod gwirfoddoli ar ddydd Sul. Maent yn falch bod wedi gweithio'n dda gyda CNC gan gynnwys **DL** ac wedi ennill pedair gwobr er 2020.<br>**CH** – Hefyd yn gwneud gwaith i'r Squirrel Partnership a bydd yn mynd i'w cynhadledd dathlu 10 oed ar ei gost ei hun, ac mae'n gobeithio cael gwell gwaith DNA eleni yn ardal Coedwig Tywi. Mae'n credu y gallai fod 120 o felaod y coed yng Nghymru ar hyd o bryd ac mae **TS** wedi dweud iddo weld un ei ardal yntau hefyd. Wedi ei dal ar gamera nos. |
| 5.4 | **EH** – Bydd ganddynt Bioblitz ddydd Gwener 20 Mehefin 11am-6pm yn Rhos Cwmsaeson ac mae posteri ar gael i'w rhannu am y Prosiect Ieir Bach yr Haf a Chlychlys, sy'n cael ei redeg ar y cyd â Chadwraeth Ieir Bach yr Haf. Bydd Paul Taylor yn cynnal teithiau cerdded ac yn rhoi sgyrsiau ar y diwrnod. Maent yn cynllunio rhyw ymwneud cymunedol ar ynys Lochtyn a thaith gerdded yng Nghwm Soden ar 18 Mai. |
| 5.5 | **CHn –** Maent yn dal i glirio niwed ar eu holl safleoedd gan gynnwys gweithio gyda CNC i glirio coed a oedd yn rhwystro afon Aeron a mannau eraill.<br>Ar brosiect **EH**, maent wedi gwneud clirio llwyni gaeaf mewn mannau i helpu'r Fritheg Berlog . Mae **Cn** wedi bod yn gweithio gyda gwirfoddolwyr ar ynys Lochtyn yn gwneud gwaith deg diwrnod mewn un diwrnod. |
| 5.6 | **YS** – Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf mae'r prosiect Wildlife Recording Toolkit a chanllaw planhigion wedi cynnwys yr holl enwau Cymraeg. Maent yn trafod gyda Phartneriaethau Natur Lleol Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro am raglen fwy cynhwysfawr o hyfforddiant cymunedol ac ymgysylltu ag adnabod bywyd gwyllt, a allai gynnwys pobl yn mabwysiadu ardal. Byddai hyn yn caniatáu creu llwybrau rhwng y rhai sy'n dechrau a gwybod sut maent yn rhan o'r darn ehangach.<br>**KH** – Gofynnodd a oedd ardaloedd gyda llawer iawn o gofnodion wedi eu cofnodi'n well neu bod mwy o rywogaethau. **YS** – Dywedodd bod ganddynt ddulliau i gyfrif am hynny.<br>**YS** – Wedi rhannu copïau papur o'r gwaith roedd yn ei ddisgrifio ac y byddai'n e-bostio copi i bobl yn y cyfarfodydd ar-lein os oeddent yn dymuno. |

| | |
|---|---|
| | **ER** – Gofynnodd sut y dylai pobl sydd â diddordeb gofrestru. **YS** – Ymatebodd nad yw hwn yn brosiect gweithio eto ac y byddai **GC** yn rhoi'r wybodaeth honno yn y Cylchlythyr pan fyddai'n barod. |
| 5.7 | **JR** ac **YS** rhoddwyd rhagor o wybodaeth i **ER** am Aderyn, y gronfa ddata LERC aderyn.lercwales.org.uk<br>**AH** - Gan ddychwelyd at ddiweddariad **JW** gofynnodd **AH,** os oedd am siarad â'r adran gynllunio, a allai gysylltu â hi a'r ecolegwyr cynllunio yn gyntaf. **JW** Cytunodd y gallent gael cyfarfod. |
| 5.8 | Ynglŷn â diweddariad **DW**, dywedodd **AH** bod datblygiadau bioamrywiaeth sylweddol yn safleoedd Trin Dŵr Gwastraff Aberteifi, sy'n unol â'r ddyletswydd yn Adran 6 i'r Cyngor a'i bod yn bwysig i hyn ddigwydd.<br>Ar gyfer diweddariad YS, credai AH fod syniad y prosiect CGBGC yn arwyddocaol ac yn bwysig i Geredigion gan fod gennym lai i gofnodi ac felly'n ymddangos bod llai o fywyd gwyllt. Bydd hyn hefyd yn helpu **JW** a'r ecolegwyr cynllunio i roi'r cyngor cywir i ddatblygwyr am yr hyn na ddylent ei wneud a'r hyn y gallant ei wneud. |
| 5.9 | **ER** – Yr Ardd Gyda chefnogaeth gan Ynni Lleol Capel Dewi, mae ganddynt nifer o sesiynau'n digwydd dros yr haf. Bydd sesiwn adnabod blodau gwylltion yn digwydd ar 7 Mehefin, ac ar 28 bydd sesiwn garddio bywyd gwyllt, felly mae'n cefnogi pobl sy'n ystyried cael bywyd gwyllt yn eu lle bach a'u gerddi. Yna ar 8 Gorffennaf bydd diwrnod natur i'r teulu.<br>Ewch draw i Ysgol Bro Teifi lle maen nhw wedi bod yn gweithio gyda'u tîm anghenion ychwanegol. Mae'r ysgol wedi plannu coed o darddiad lleol ac yn ystyried newid ei threfn o dorri porfa. Mae'r Pennaeth yn frwd iawn dros hyn.<br>Mae Fferm Pen-y-banc wedi bod yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, ac mae rhai sesiynau i ddod. Bydd un ar 14 Mehefin yn monitro a gwneud arolwg o fywyd gwyllt, a sesiwn arall ar 27 Medi. Mae wedi cael grant cychwyn gan Lywodraeth Cymru i weithio gyda rhyw 15,000 o hadau. Mae am symud i batrwm o Feithrinfa Goed Gymunedol.<br>**EE** Byddai'n hoffi i **ER** gysylltu ag ysgol gynradd yn ei ward. |
| 6.0 | **DL** – Lansiwyd cynlluniau Coedwig Genedlaethol ddwy flynedd yn ôl. Y targed oedd cael 30 o safleoedd ymhen dwy flynedd. Llwyddwyd i gael 60 a rhagor yn aros am benderfyniadau. Mae DL eisiau i unrhyw un sy'n aros i ymuno â'r Rhwydwaith Coedwig Genedlaethol roi gwybodaeth iddo am y posibiliadau a ble maent.<br>Mae Gardd Goedwig Naturewise yn Aberteifi yn enghraifft dda o bartner Coedwig Genedlaethol. |
| 6.1 | **BJ** – mae wedi treulio'r rhan fwyaf o'r gaeaf yn mynd i'r afael â thyfiant coed sbriws Sitka sy'n broblem fawr. Mae ganddo wirfoddolwyr, ond fe yw'r unig un sydd â thrwydded llif gadwyn. Mae wedi bod yn datblygu dull o dorri cylch o gwmpas y rhisgl â llaw gan ddefnyddio llif rhaff. Mae hyn yn lladd y coed ymhen dwy neu dair blynedd, ac mae rhai manteision gan fod gennych goed marw yn dal ar eu traed am ddwy neu dair blynedd ar gyfer pryfed neu adar.<br>- Hoffai glywed barn pobl, a yw hyn yn ddull all barhau drwy'r flwyddyn heb darfu'n ormodol ar adar a bywyd gwyllt arall.<br>- Mae'n recriwtio mwy o wirfoddolwyr, ar y safle ger Ffostrasol. |

| | |
|---|---|
| 6.2 | **DA** – Yn cael anhawster clywed yn ystod y cyfarfod. Wedi cael gaeaf prysur yn RSPB Ynys-hir.<br>Roedd ganddynt 10 o wyddau gwyrdd a gwyn, sef un o'r ddwy boblogaeth o wyddau gwyrdd a gwyn y tu allan i'r Alban ac Iwerddon, a'r llall ar Ynys Môn. Mae 10 yn ddirywiad sylweddol ers y llynedd, sef 16.<br>Roedd yn aeaf da i wneud gwaith cynnal a chadw, ac ar gyfer poblogaethau magu mae tua 45 o barau o gornicyllod a 50 o barau o'r Pibydd Coesgoch, sy'n debyg i'r llynedd.<br>Defnyddiwyd arian llywio Polisi Cenedlaethol i Gymru i glirio llwyni rhododendron a gwneud arolwg o blanhigion is, ac maent wedi gwneud llawer o waith gydag yswiriant.<br>Maent wedi gwneud gwaith monitro cynefinoedd ar ein rhywogaethau ehangach. Maent yn edrych ar ddosbarthiad Mwng y Ddaear Dringol, sy'n un o'r ychydig safleoedd ar gyfer gwyddon yn y warchodfa. |
| 6.3 | **TS** – Gyda grŵp o dirfeddianwyr maent yn ceisio llunio grŵp ailwylltio gyda chefnogaeth gan Rewilding Britain. Nid ydynt yn hoffi defnyddio'r term gan ei bod yn well gan ffermwyr sôn am adfer natur.<br>**TS** Mae ganddo 20 i 30 erw o dir SoDdGA ac roedd yn bryderus am iselhau'r lefel trwythiad i wella mynediad ar gyfer pobl ar gefn ceffyl. Gofynnodd am ymweliad gan CNC, a oedd yn pwysleisio pwysigrwydd y safle nad oeddent efallai wedi ei sylweddoli. Mae sôn am symud i fyny'r rhestr o flaenoriaethau a chael arolwg hydrolegol, gan annog tirfeddianwyr cyfagos i fynd am adfer tir mawnog.<br>**TS** – Roedd wedi plannu tua 30 erw o goetir ryw 17 flynedd yn ôl. Mae'r coed ynn wedi marw a bu'n rhaid tynnu'r coed llarwydd i gyd yn ddiweddar dan gytundeb Hysbysiad Statudol Iechyd Planhigion.<br>**TS** – Mae wedi defnyddio gwartheg i fwrw coed marw i lawr ac i bori ychydig ac i sathru'r drain, ac mae'n ystyried ailblannu neu adfer tir mawnog fel y dewis mwyaf ffafriol.<br>**TS** – Esboniodd y bydd diwrnod agored yng Nghefn Garthenor ddydd Gwener 13 Mehefin.<br>**PT** – Hoffai fynd i weld a yw ardal **TS** yn addas ar gyfer Britheg y Gors, a bydd yn cysylltu rywbryd.<br>**TS** –Wedi cael ymweliad gan Sheena Duller o Plantlife ynglŷn ag eDNA Capan Cŵyr. |
| 6.4 | **AP** –Wedi cael blwyddyn lwyddiannus o reoli coetiroedd a chyrsiau garddwriaeth, sydd newydd ddod i ben. Mae eu hariannu wedi ei ymestyn, felly maent yn ceisio dod o hyd i wahanol brosiectau a phobl i weithio gyda nhw, megis cwrs ar adeiladu toiled compost lle mae angen un, gan wneud gwaith gyda rhywfaint o'r gwasanaeth ieuenctid..<br>Maent newydd ddechrau gwneud cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri i wneud mwy o waith rheoli coetiroedd traddodiadol, megis tocio a phlygu cloddiau. Maent yn estyn allan at bobl ac at Geredigion i edrych am unrhyw safleoedd y gallent o bosibl eu defnyddio.<br>**CHn** – Dywedodd iddi gael cyfarfod gyda Kath, Prif Weithredwr Tir Coed fel rhan o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac mae'n edrych ar fod yn rhan o'r grantiau y byddant yn gwneud cais amdanynt. Felly mae ganddynt rai safleoedd y gallent efallai eu defnyddio. |
| 6.5 | **SMH** – Diolchodd i **RA** am sôn am Wythnos Natur Cymru (WNC) ac mae'n hapus nad yw'r cynllun Adran 6 ymhell i ffwrdd, a hoffai gael dolen pan fydd wedi ei gwblhau. O ran WNC, bydd **SMH** yn rhoi cyhoeddusrwydd i unrhyw ddigwyddiadau gyda chaniatâd. |

| | | |
|---|---|---|
| **Gweithr du**<br>5.6 | **GC** – I hyrwyddo prosiect CGBGC | Dim dyddiad lansio wedi ei gadarnhau. |

| | | |
|---|---|---|
| 5.9<br><br>6.3<br><br>6.5 | **EE** – I gysylltu ag **ER**<br><br>**GC –** I hyrwyddo'r diwrnod agored.<br><br>**GC -** I anfon y ddolen Adran 6 at **SMH** | Cyn 11/07/25 Cyn gynted ag y ceir manylion.<br>Pan fydd ar gael. |

| TORIAD |
|---|

| 7 | DIWEDDARIADAU STAFF |
|---|---|
| 7.0 | **GC** Ymddiheurodd am y diffyg gyda'r rhyngrwyd ar ddechrau'r cyfarfod, ac yna disgrifiodd ddiwedd y cynllun grantiau fel un llwyddiannus gyda dim ond £200 ar ôl heb ei wario allan o £350,000 a 23 o brosiectau.<br>Eisiau mynd at y Cyngor a gofyn am waharddiad gwirfoddol ar Gylchoedd Hedfan Plastig ar draethau Ceredigion. Bydd y llwyddiant yn dibynnu ar gefnogaeth y cyhoedd ac anfon y wybodaeth allan drwy CSC, y bartneriaeth, sefydliadau. Mae Tesco, Pets at Home a changhennau Asda ar yr arfordir eisoes wedi gosod gwaharddiad ac felly gellir eu defnyddio fel cefnogaeth.<br>Mae'r Tîm Bioamrywiaeth yn awyddus i gael Wythnos Natur Gŵyl Natur Cymru. Mae **GC** yn gofyn i unrhyw un a fyddai'n hoffi cael stondin i roi cyflwyniad neu i arwain prif weithgarwch i gysylltu ar biodiversity@ceredigon.gov.uk |
| 7.1 | **FM** Ers y cyfarfod diwethaf mae wedi bod yn helpu gorffen y grantiau a gweithio ar gynllun peilot Coedwig Genedlaethol i Gymru gyda nifer o wahanol brentisiaid. Roedd un prosiect ym Miosffer Dyfi, a hoffai **FM** wneud mwy o waith yno. |
| 7.2 | **CHa** – Yn gweithio ar y Gwarchodfeydd Natur Lleol ac wedi gwneud llawer o waith ym Mhenparcau ac yn Llwyn yr Eos yn gwneud gwaith adfer ar ôl stormydd. Mae problem ym Mhenparcau gan fod pobl yn taflu eu gwastraff gerddi. Mae Cymdeithas Cadwraeth Aberystwyth wedi dweud eu bod am wneud gwaith yno, ac mae **CHa** eisiau gweld a oes ganddynt rai gwirfoddolwyr i wneud rhai tasgau.<br>Ym Mharc-y-llyn yn gweithio gyda chynnal a chadw tiroedd ac wedi trefnu cymhwyster Lantra i ddau ohonynt. Maent hefyd wedi gwneud gwaith ar lwybrau ac wedi torri porfa mewn dolydd.<br>**CHa** a rhai cydweithwyr wedi gweithio gyda Gwirfoddolwyr Cadwraeth Aberystwyth (ACV) ac wedi casglu 30 o sachau o sbwriel gan gynnwys nifer o bebyll, ac mae **CHa** wedi gwneud gwaith ar goed yn yr ardal honno hefyd a gwaith ar ddolydd ym Mhendinas, gan dorri llystyfiant yn ôl a gweithio gyda'r frigâd dân ar greu atalfeydd tân.<br>**CHa** ac ACV wedi torri'r fynedfa i mewn i Gae'r Asynnod yn Aberystwyth, wedi gweithio ar risiau ym Mharc Natur Pen-glais, gwaith diogelu coed. Mae Arolwg Coed Celtaidd ar y gweill, ac arolwg o ymlusgiaid, arolwg o ystlumod a gwaith ar Afiechyd Coed Ynn. Yng Nghoed-y-cwm mae angen adnewyddu ffordd droed a gwneud gwaith diogelwch.<br>**CHa** hefyd wedi bod yn gweithio ar fyrddau dehongli ar gyfer Cenarth a Llanina. Hefyd yn gosod blychau adar, gosod mannau i ddwrgwn, trefnu gwaith carreg, cyfyngu uchder a helpu **PT** a'r Gymdeithas Moch Daear.<br>Mae Cefn Gasai wedi ei docio a gobeithio y bydd yn gosod byrddau am yr ymlusgiaid. Ym Maes-y-pwll mae wedi gwneud gwaith ar ddiogelwch coed a thrwsio grisiau. |

| | |
|---|---|
| | **AH** Dywedodd ei bod wedi gwneud llawer iawn o waith ers dechrau cael help drwy arian Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ac wedi gofyn i bobl gysylltu os gallent wirfoddoli ar y gwarchodfeydd natur. |
| 7.3 | **JR** – Wedi bod yn gweithio ar brosiect personol mewn gardd gymunedol yng Nghilgerran, gan gynnwys creu cysgodfan o gynfas fel ystafell ddosbarth awyr agored. Fe allai fod o ddiddordeb i grwpiau eraill. Bydd diwrnod garddwriaeth yn y Ddôl Flodau ddydd Sadwrn 3 Mai. Gofynnodd **JR** a oedd gan rywun unrhyw daflenni ar natur i'w rhannu a byddai'n eu dosbarthu. Bydd **JR** yn rhoi sgwrs ar Grŵp Glaswelltir Ceredigion.<br>Mae platfform y Cylchlythyr bron wedi ei lunio ac yn barod i'w lansio. Bydd hyn yn gwneud rhannu gwybodaeth yn haws, a bydd archif o'r cylchlythyron blaenorol ar gael yno.<br>**JR** – Mae'n teimlo'n gyffrous iawn am fater mapiau ac yn credu y bydd yn allweddol i gyfathrebu.<br>**JR** – Soniodd am y grant o £10,000 gan Dŵr Cymru, a diolchodd i **DL** sydd wedi ei ddefnyddio ar gyfer Prosiect Gwyddoniaeth y Bobl/ID Glaswelltir ac mae'n edrych ymlaen at ddefnyddio'r profiad hwnnw i wneud pethau mwy o faint. Esboniodd **DL** fod yr arian wedi dod i ben, ond roeddent yn edrych tua'r dyfodol a sut y byddai pethau'n gweithio gan gynnwys o bosibl gyfuno arian. Fel rhan o'r prosiect hwn, roedd **JR** wedi gweithio gyda hanner dwsin o ysgolion cynradd yn Aberteifi a bod yn bartner gyda thirfeddianwyr lleol drwy fynd allan gyda phlant ysgol yn cario rhwydi ieir bach yr haf, cardiau adnabod a 'pooters'. Mae yna gwis ar-lein mae Jake yn ceisio cael mwy o arian ar ei gyfer i fynd ag ef i ysgolion eraill. Mae'r prosiect yn sôn am gynefinoedd eraill, nid glaswelltir yn unig.<br>**JR** Mae'n hapus i rannu'r wybodaeth hon ac eitemau sydd wedi eu creu, ac mae'n diolch i **YS** am ei gymorth, gan gynnwys gwneud 'pooters' â llaw.<br>Mae glaswelltir amwynder mewn ysgolion ac mae **JR** wedi bod yn siarad â Hywyn yng Ngwynedd ac Isobel ym Mhartneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin.<br>**JR** Mae wedi ei ysbrydoli gan waith gan **BJ** ac wedi creu'r Prosiect QRFPP (QR Code Fixed Point Photography – Ffotograffiaeth Pwynt Sefydlog Cod QR), sef braced o ddur gyda chrud ffôn. Mae'r cod QR yn lanlwytho i'r oriel luniau ar-lein ar wefan. Mae'n bwriadu profi hyn ar ychydig safleoedd yn y chwe mis nesaf. |
| 7.4 | **AH** – Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r arian refeniw Lleoedd Lleol ar gyfer Natur i'r Bartneriaeth Natur a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Bydd **GC** yn dal i weithio'n amser llawn, **JR** am 4 diwrnod, **FM** am 3 diwrnod ac **RA** am 15 awr yr wythnos. Bydd arian cyfalaf ar gyfer adfer natur yn dod. Bydd y swm yn llai na'r llynedd. Mae Llywodraeth Cymru a CGGC yn gweithio ar y canllaw ar gyfer meini prawf y gwariant. Mae angen cyflwyno cynllun gwaith ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.<br>Mae'n debygol y bydd cynllun grant arall ond bydd yn llai na'r un diwethaf, gydag amser i Eols a ffenestr agor gynharach. Mae AH eisiau gwario ychydig arian ar bethau fel prosiect QRFPP gan **JR**. Does dim rhaid i gyfalaf fod yn goed, ac ati. Gall hefyd fod yn adroddiad priodol. Mae **AH** yn gobeithio y caiff y gwaith ei gymeradwyo erbyn diwedd mis Mai.<br>Yn credu ein bod yn y cyfnod Mynegi Diddordeb, er na allaf ragweld yn union pryd y bydd y cynllun at yn agor, ond bydd lawer yn gynharach na'r llynedd.<br>Bydd cyfleoedd Cronfa Herio ar themâu'r Goedwig Genedlaethol, Llythrennedd y Môr ac un yn anelu at Gynghorau Tref a Chymuned. Gall pobl eraill gynnig prosiectau cronfa herio, ond rhaid i'r cais fynd drwy'r PNL.<br>**AH** – Byddai'n hoffi i'r tîm gael gwybod am unrhyw syniadau ar gyfer prosiectau cyfalaf.<br>A oes cyfle i brynu tir yn benodol? Nac oes. |

| | | |
|---|---|---|
| | **DL** Gofynnodd a oedd unrhyw gynlluniau ar gyfer cyfleoedd prynu tir. Dywedodd **AH** nad oedd. Mae wedi bod yn anodd ceisio prynu safle Llanina oddi wrth Dŵr Cymru.<br><br>**JW** – Mae Cynghrair Llythrennedd Môr Cymru yn rhan o'r Bartneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd a bydd yn cwrdd yn Aberystwyth ar 8 Mai yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru a gall gysylltu pobl sydd â diddordeb â'r cyfarfod hwnnw. | |
| **Gweithredu** | | |

| 8 | **Cynllun Gweithredu Adfer Natur a Mapio** |
|---|---|
| 8.0<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>8.1 | **RA** – Mae'n gweithio 15 awr yr wythnos ac yn canolbwyntio'n llwyr ar y Cynllun Gweithredu Adfer Natur. Mae ei chontract wedi ei ymestyn tan ddiwedd y cyfnod ariannu. Mae wedi bod yn gweithio ar gynllun gwaith a dogfen llwybr critigol i helpu gyda'r gwaith hwn gan fod llawer o gydblethu'n digwydd rhwng y categorïau hynny. Byddai RA yn hoffi elfen fapio i redeg ochr yn ochr â rhyw fath o elfen testun.<br>Mae trafodaethau am lywodraethiant, cyllid ac adnoddau yn mynd ymlaen. Mae **JW** wedi gweithio fel ymgynghorydd i gynhyrchu drafft 1 a 2. Y cam nesaf yw gosod yr ail ddrafft yn Gymraeg ac yn Saesneg ar dudalennau ymgynghori Cyngor Sir Ceredigion a phennu diwedd Mehefin ar gyfer cyflwyno sylwadau am y drafft presennol.<br>**RA** Mae eisoes wedi cael ychydig ddefnydd arall wedi ei gynnwys. Os bydd rhywun yn dymuno gweld y ddogfen fyw, gellir ei hanfon allan.<br>Bydd angen i'r CGAN gael ei lofnodi'n derfynol gan rywun, gyda rhagair braf gan y Cadeirydd **EE**. Yna CLNP. Yna Cyngor Sir Ceredigion. Rhaid cael craffu cyhoeddus. Mae Cylch Gwaith ar gyfer panel grantiau, ond nid oes gennym Gylch Gwaith Partneriaeth hyd yma.<br>**RA** Byddai'n hoffi i ddrafft y Cylch Gwaith fynd allan gyda chofnodion y cyfarfod hwn erbyn 30 Mehefin. Bydd RA yn paratoi eitem am hyn ar gyfer y cylchlythyr nesaf. Bydd **RA** wedyn yn ail-ddrafftio'r Cylch Gwaith os bydd angen a dod ag ef i'r cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf.<br>Mae angen i'r CGAN gael ei ymgorffori yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru.<br>**AH** – Dywedodd y gallai cyfarfod mis Gorffennaf fod ar Lwyfan y Band gyda'r nod o gael cyfarfod hybrid.<br>**RA -** Bydd yn holi i weld a oes angen i'r CGAN fynd o flaen panel rheoli'r prosiect, y grŵp arweinyddiaeth, polisi cynllunio ac ati cyn mynd gerbron prif gyfarfod y Cyngor. Bydd yr holl ddrafftiau, y dyluniadau, y cynlluniau cyfieithu yn costio arian a byddai **RA** yn hoffi i'r rhain gael eu hystyried yn y cynllun gwaith a bydd yn creu rhai ffigurau bras.<br>Bydd ymgynghori ar yr ail ddrafft, pan gaiff ei gau i gael ei olygu, yn cael ei adael ar agor i bobl gyfeirio ato cyn i'r ffenestr ymgynghori agor drachefn.<br>**RA** gyda **JR** a **GC** – wedi drafftio'r cylch gwaith. Dyma drosolwg o'r adrannau:<br>Partneriaeth Natur, nodau, dull, statws, aelodaeth. Gall unrhyw un fod ar y rhestr bostio ond mae *Aelod* yn golygu aelod o Natur Ceredigion, sef brand y bartneriaeth. Os bydd pobl am fod yn aelod, gallant farcio blwch ar wefan Natur Ceredigion a gaiff ei lansio'n fuan. Bydd GDPR yn parhau'r un fath. Mae marcio'r blwch yn rhoi hawliau pleidleisio ichi.<br>Mae'r adran nesaf yn ymwneud â strwythur a chyfrifoldebau. Mae un cymal yn dweud bod y cylch gwaith i gyd yn cael ei adolygu os bydd y corff derbyn yn newid. Y partneriaid aelodau fyddai'n ceisio codi'r arian i wneud hynny. |

| | |
|---|---|
| | Mae yna adran am gyfarfodydd a gwneud penderfyniadau, a pholisi wedyn. Mae yna adran am gyfle cyfartal, polisi cyfathrebu a pholisi iaith. Felly, os bydd unrhyw un am ychwanegu neu newid rhywbeth, dylid anfon e-bost i biodiversity@ceredigion.co.uk. |
| 8.2 | **RA** – Soniodd am bwysigrwydd gwybod pwy sy'n gwneud beth yn y sir ac mae'n gweld CGAN a gwaith mapio fel dwy haen a fydd yn integreiddio. Roedd chwe nod yn CGAN Cymru a phum thema yn croestorri. Gwnaeth **RA** grid o 30 o sgwariau yn adlewyrchu hyn. Ychwanegwyd gwybodaeth am bopeth roedd pobl yn ei wneud neu'n gwybod amdanynt, a ble byddai hynny'n eistedd yn y matrics. Rhoddodd **RA** feddygfa i'r cyhoedd nad oeddent yn deall.<br>Gyda 30 x 30 mae **RA** yn gweld elfen Rubik's Cube.<br>**SMH** – Byddai'n hoffi i **RA** anfon copïau ato o ddrafft y CGAN. Dywedodd fod CGANau yn ddogfennau byw oherwydd newidiadau ariannu a pholisi.<br>**RA** – Mae'n credu gwefan Natur Ceredigion fydd y brif ffynhonnell gyfathrebu, ond mae'n pryderu y caiff rhai pobl anhawster i gael mynediad am ei fod ar-lein. Dywedodd **SMH** fod rhai cynghorau'n argraffu nifer fach ac yn gadael copïau mewn mannau fel llyfrgelloedd, ac weithiau un i blant hefyd. Roedd **RA** yn pryderu am y costau a'r cyfieithu. Awgrymodd **SMH** fynd â fersiwn fer i ddigwyddiadau<br>**AO** – Gofynnodd a fyddai **RA** yn hoffi gweld mannau tyfu cymunedol a rhandiroedd yn cael eu hychwanegu at y mapio. Dywedodd **RA** y byddai. |
| 8.3 | **JR** – Cyflwyniad Mapio **All Maps Are Wrong** grwd.cc/wrong-maps |
| 8.4 | **CM** – Rhoddodd grynodeb o brosiect gyda **JW** sy'n cysylltu â thrafodaeth y dydd. Roeddent wedi cael sgwrs gynt gyda **CHa** ac **EH** am y ffordd mae cyfarfodydd yn ddefnyddiol, ond mae'n fuddiol cael teimlad eang am yr hyn sy'n cael ei wneud ar gyfer adfer natur.<br>O hynny tyfodd safbwynt partneriaid PNL allan yn y gymuned sy'n gweithredu dros natur.<br>**CM** a **JW** – Maent yn meddwl am weithgarwch mapio i bawb, nid aelodau PNLC yn unig. Un digwyddiad ar y cychwyn gyda themâu o CGAN Cymru a gofyn i bobl ddod yn gyfarwydd â'r themâu hynny. Byddai hwn yn fap ffisegol. Gallai'r map ddangos lliwiau i fod yn addas i'r themâu, cynnwys crynodeb o'r gweithgarwch, pa thema CGAN mae'n perthyn iddi a phosibiliadau ar gyfer eu dilyn. Gellid cael man cyswllt i bobl heb gymdeithas neu Facebook ar biodiveristy@ceredigion.gov.uk.<br>Mae'r prosiect yn sefyll ar ei ben ei hun, ond mae hefyd yn cysylltu â'r ddogfen CGAN gyda'r nod fod y ddau'n cysylltu â'i gilydd<br>Maent yn gwneud hyn yn wirfoddol.<br>**RA** – Gofynnodd a fyddent yn mynd â'r map i'r Ŵyl Natur. Dywedodd **JW** ei bod yn bosibl. |
| 8.5 | **JW** – Hoffai gael mwy o drafodaeth am y cwestiwn a ddylai'r digwyddiad cychwynnol fod ar gyfer aelodau'r PNLC yn unig. Ei ddewis ef yw cael lleoliad agored lle gall unrhyw un ddod i mewn ac ymuno. Cadarnhawyd hyn gan **CM**. Maent yn canolbwyntio ar hwyluso ac ymgysylltu â phobl, partneriaid presennol PNL a'r cyhoedd yn ehangach.<br>**RA** – Gofynnodd a oeddent yn dod ag asesydd allanol i mewn.<br>**CM** – Dywedodd nad oedd hyn wedi ei drafod hyd yma. Nhw fydd yn gwneud union hwyluso'r trafodaethau hynny, gan eu bod yn awyddus iddo fod yn weithgarwch partneriaeth, nid yn cael ei hwyluso gan y Tîm Bioamrywiaeth drwy CSC i osgoi dryswch.<br>**AH** – Dywedodd bod y Tîm Bioamrywiaeth yn cael ei noddi gan CSC ond nid yn CSC, er bod rhaid iddynt ddilyn polisi a gweithdrefn CSC. Dywedodd ei bod yn braf cael yr ymateb uniongyrchol hwnnw. |

| | |
|---|---|
| | **RA** – Dywedodd y bydd yn gliriach gyda'r Cylch Gwaith y gall aelod sydd ag angen arian ei gael drwy nifer o wahanol ffrydiau.<br>**YS** – Soniodd am wefan mapio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ac am offeryn mapio/cynllunio nad yw ar gael i'r cyhoedd ond y gall partneriaid ei ddefnyddio.<br>**FM** – Soniodd am fap mawr o Biosffer Dyfi y byddai pobl efallai'n hoffi ei weld. |
| 8.6 | **Paul Taylor – Cyflwyniad Ieir Bach yr Haf Ceredigion**. |

| | | |
|---|---|---|
| **Gweithredu** 8.1 | **RA** – I anfon drafft o'r CGAD at **SMH** | Cyn diwedd Mehefin |